

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: clerc.llansantffraed@btinternet.com
Tel: 01545 570323

COFNODION HEB EU CADARNHAU

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, y 6ed o Fedi 2016 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.

Yn bresennol:

Cadeirydd: Y Cynghorydd L Lloyd
Y Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, G Lewis, D Morgan, B Tomlins ac I Reed.
Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

UNCONFIRMED MINUTES

Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 6th September 2016 at the Reading Room, Llanon.

Present:

Chairman: Councillor L Lloyd
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, G Lewis, D Morgan, B Tomlins and I Reed.
County Councillor Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerk)

51 Chalet Llainlan

Rhodddwyd croeso i gynrychiolwyr Grŵp 'Save Llanon's Historic Landmark' i'r cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Dafydd Edwards wedi paratoi cynllun o gysgodfa allai gymryd lle'r chalet presennol. Fe fyddai'r gysgodfa newydd o'r un maint yn cael ei godi ar sleid a fyddai'n ei alluogi i'w symud i fewn at y tir wrth i'r arfordir erydu gydag amser.

Esboniwyd bod angen prisio'r cynllun er mwyn cael trafodaeth pellach gan y Cyngor maes o law. Dywedwyd bod swm o £1,177.98 ar gael yng nghronfa'r Chalet ac nad oedd arian wedi'i gynnwys yng nghyllideb eleni at y pwrpas hwn, felly fe fyddai'n rhaid i gwrdd ag unrhyw wariant ychwanegol o'r arian wrth gefn cyffredinol.

Dywedodd cynrychiolwyr y Grŵp taw symud ac ail-godi'r chalet presennol oedd yr opsiwn a ffafrwyd ganddyn' nhw. Prun bynnag, fe fyddent yn barod i drafod codi cysgodfa newydd ymhellach unwaith oedd prisiau wrth law; gan gynnwys y posibilrwydd o godi arian er mwyn cyfrannu tuag at gost y gysgodfa.

51 Llainlan Chalet

Representatives of the 'Save Llanon's Historic Landmark' group were welcomed to the meeting. The Chairman advised that Councillor Dafydd Edwards had produced a design of a possible replacement for the present chalet. The new shelter would be of the same size and constructed on a sledge which would enable it to be moved further inland as the coast eroded over time. It was explained that the plans would need to be priced for the further consideration of the Council. It was stated that a sum of £1,177.98 was available in the Chalet fund and that no money had been provided in this year's budget for this purpose so any additional expenditure would have to be met from the general reserves.

The representatives of the Group indicated that their preferred option was to move and re-build the existing chalet further inland. However, they would be prepared to discuss the construction of the proposed replacement shelter once costings had been obtained; including the possibility of raising money in order to contribute towards the cost of the shelter.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Cynghorydd Dafydd Edwards gael pris ar gyfer codi cysgodfa newydd yn lle'r chalet presennol ac i ystyried y mater ymhellach yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.

It was **RESOLVED** to request Councillor Dafydd Edwards to obtain costings for the erection of a replacement shelter and to consider the matter further at the November meeting of the Council.

- | | |
|---|---|
| <p>52 Materion Personol
Mynegwyd dymuniadau gorau'r Aelodau i ferch y Cynghorydd Dennis Morgan a oedd yn dal i dderbyn triniaeth.</p> | <p>52 Personal Matters
The best wishes of the Members were conveyed to the daughter of Councillor Dennis Morgan who was continuing to receive treatment.</p> |
| <p>53 Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2il o Awst 2016
Cadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Awst 2016 fel rhai cywir.</p> | <p>53 Minutes of the Meeting held on 2nd August 2016
The Minutes of the Meeting of the Council held on 2nd August 2016 were confirmed as being a correct record.</p> |
| <p>54 Materion yn codi o'r Cofnodion.</p> | <p>54 Matters arising from the Minutes.</p> |
| <p>54.1 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg
Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau parthed perchnogaeth y tir lle safai y gwreiddyn.</p> | <p>54.1 Tree Stump on Footpath near Llwynteg
The Clerk was requested to investigate the ownership of the land on which the stump was located.</p> |
| <p>54.2 Llwybr yn arwain at y Maes Chwarae NODWYD y byddai'r 'scalpings' yn cael eu taeni o fewn wythnosau.</p> | <p>54.2 Track leading to the Playing Field
It was NOTED that the scalpings would be spread in the next few weeks.</p> |
| <p>54.3 Arwyddion
Dywedodd y Clerc fod y canlynol wedi cael eu harchebu ac fe ddisgwylwyd eu derbyn:
6 arwydd 'Dim Cŵn'
1 arwydd i'r stordŷ
3 arwydd bach i'r byrddau picnic.</p> | <p>54.3 Signs
The Clerk advised that the following had been ordered and that their delivery was still awaited:
6 'No Dogs' signs
1 sign for the storage shed
3 small signs for the picnic tables.</p> |
| <p>54.4 Banc Poteli Arfaethedig yn Llansantffraed
Darllenodd y Clerc ymateb y Cyngor Sir a oedd wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau a oedd yn dweud nad oedd modd i'r cerbyd a oedd yn gwagio'r banciau i gyrraedd y llain oherwydd fod yr heolydd yn rhy gul ac yn cynnig y byddai maes parcio Neuadd y Pentref yn safle mwy addas.
Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Edwards fod y Cyngor Sir yn mynd i ddechrau arbrawf o gasglu poteli o</p> | <p>54.4 Proposed Bottle Bank at Llansantffraed
The Clerk read out the response of the County Council which had been previously circulated to Members which indicated that it was not possible for the vehicle which emptied the banks to reach the slang because the roads were too narrow and that the Village Hall car park would be more suitable.
Councillor Dafydd Edwards stated that the County Council were soon to commence a trial to collect bottles from households in</p> |

gartrefi yn ardal Aberteifi yn fuan cyn penderfynnu a oeddent am gyflwyno'r gwasanaeth drwy's Sir i gyd.

PENDERFYNWYD cyfeirio'r Cyngor Sir at Bwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref.

54.5 Gât y Maes Chwarae

Dywedodd y Cynghorydd Morgan y byddai'n trefnu trwsio'r gât.

54.6 Llwybr Troed Brynadsain

Dywedod y Clerc fod Dafydd Phillips yn cynnig pris o £715 ar gyfer y gwaith o osod graean ar y llwybr hwn.

PENDERFYNWYD cytuno derbyn y pris o £715 a gofyn i Mr Phillips fwrw 'mlaen gyda'r gwaith.

54.7 Hysbysfwrdd / Meinciau

Nodwyd bod tîm Rhydian Wilson yn cael ei ailsefydlu ar ddechrau'r tymor newydd ac i gysylltu ag ef o fewn rhyw fis.

54.8 Cyrtiau Tennis

Dywedodd y Cynghorydd Iori Reed ei fod yn bryderus fod craciau wedi ymddangos ar lawr y cyrtiau tennis a allai fod wedi'i achosi gan y gwaith gerllaw o osod boiler biomass ar dir Hafan yr Efail.

PENDERFYNWYD cyflwyno pryderon y Cyngor i Gymdeithas Tai Ceredigion a Chyngor Sir Ceredigion.

55 Eiddo – Adroddiad yr Arolygiad

Dywedodd y Cynghorydd Iori Reed, heblaw'r mater a drafodwyd yn y cofnod uchod, nid oedd wedi nodi unrhyw broblemau eraill.

56 Y Cyrtiau Tennis

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gerallt Lewis a'r Clerc at y digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ar 20fed Awst, a drefnwyd gan Wasanaeth Plant a Phobl Ifanc y Cyngor Sir er mwyn casglu sylwadau plant, pobl ifanc a thrigolion y gymuned am beth y dylid darparu pe ddatblygir y cyrtiau tennis.

Roedd casgliadau'r yngynghoriad wedi'u crynhoi a **PENDERFYNWYD** gofyn i'r

the Cardigan area before deciding whether to introduce a county-wide service.

It was **RESOLVED** to refer the County Council to the Village Hall Management Committee.

54.5 Play Area Gate

Councillor Morgan indicated that he would be arranging to repair the gate.

54.6 Brynadsain Footpath

The Clerk advised that Dafydd Phillips had quoted a sum of £715 for the work of placing hardcore on this path.

It was **RESOLVED** to accept the quote in the sum of £715 and to ask Mr Phillips to proceed with the work.

54.7 Notice Board / Benches

It was noted that Rhydian Wilson's team was being reestablished at the start of the new term and to contact him in around a month's time.

54.8 Tennis Courts

Councillor Iori Reed stated that he was concerned that cracks had appeared in the surface of the courts which could have been caused by nearby work of installing a biomass boiler at Hafan yr Efail.

It was **RESOLVED** to convey the Council's concerns to Cymdeithas Tai Ceredigion and Ceredigion County Council.

55 Property - Inspection Report

Councillor Iori Reed advised that, other than what was discussed in the above-mentioned minute, no other problems had been observed.

56 Tennis Courts

Councillor Gerallt Lewis and the Clerk referred to the consultation event which had taken place on Saturday 20th August, organised by the County Council Children and Young People's Service in order to obtain the views of children, young people and the residents of the community on what should be provided if the tennis courts were developed.

The conclusions of the consultation had

Cadeirydd, y Cynghorydd Lewis, y Clerc a Mrs Non Lavarro i gwrdd gyda Swyddogion y Cyngor Sir er mwyn bwrw 'mlaen gyda'r fenter.

57 Cyllid

PENDERFYNWYD digolledu'r Clerc am y £84.50 a wariwyd ganddo ar brynu prydoedd bwyd yn ystod y digwyddiad ymgynghori uchod, yn dilyn methian y fan pizza i ddod ar y funud olaf; a fyddai'n cael ei ddigolledu'n llwyr gan y Cyngor Sir.

58 Cyfrifon 2015-16

Adroddodd y Clerc fod yna Adroddiad Archwiliad diamod wedi'i dderbyn gan Archwilwyr Allanol y Cyngor, Grant Thornton parthed Cyfrifon 2015-16. Esboniodd y Clerc mai hwn oedd yr archwiliad cyntaf i'w wneud dan ofynion Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2015, a oedd wedi gosod disgwyliadau ychwanegol ar y Cyngor wrth ddychwelyd ei gyfrifon. Cadarnhaodd y Cynghorydd Malcolm Lawton fod y disgwyliadau newydd yn llawer mwy beichus. Roedd angen talu sylw i ddau fater arall sef:

- llythyr ymrwymiad gan yr archwilydd mewnol
- monitro sefyllfa ariannol, incwm a gwariant y Cyngor yn erbyn y gyllideb yn chwarterol.

PENDERFYNWYD:

- i) nodi'r gwybodaeth ac i ofyn i'r Clerc sicrhau fod yr holl ofynion yn cael eu cwrdd yn ystod y flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol; a
- ii) cofnodi gwerthfawroddiad y Cyngor am y gwaith a wnaed gan y Clerc i gwrdd â'r gofynion archwilio ychwanegol a gyflwynwyd gan y Rheoliadau.

been collected and it was **RESOLVED** to request the Chairman, Councillor Lewis, the Clerc and Mrs Non Lavarro to meet with County Council Officers in order to proceed with the initiative.

57 Finance

It was **RESOLVED** to reimburse the Clerc the £84.50 he had spent on buying meals for the participants in the above-mentioned consultation event, following the last minute withdrawal of the pizza van; which would be reimbursed in full by the County Council.

58 2015-16 Accounts

The Clerk reported that an unqualified Audit Report had been received from the Council's External Auditors, Grant Thornton, in respect of the 2015-16 Accounts. The Clerk explained that this was the first audit to be undertaken under the provisions of the Accounts and Audit Regulations 2015, which had placed additional requirements on Council when submitting its returns. Councillor Malcolm Lawton confirmed that the new requirements were much more onerous. Two matters which still needed to be addressed were:

- an internal auditor engagement letter
- quarterly monitoring of the council's financial position, income and expenditure against the budget.

It was **RESOLVED:**

- i) to note the information and request the Clerk to ensure that all requirements were met during the current year and in future; and
- ii) to record the Council's appreciation of the work undertaken by the Clerk to meet the additional audit requirements introduced by the latest Regulations.

- | | |
|--|--|
| <p>59 Cyfrifon 2016-17 – Diweddariad ar Wariant</p> <p>Ymddiheurodd y Clerc ei fod wedi gadael y papurau gartref ac y byddai'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu gydag Agenda'r Cyfarfod nesaf.</p> | <p>59 2016-17 Accounts – Up-date on Expenditure</p> <p>The Clerk apologised for leaving the papers at home and stated that the report would be distributed with the agenda for the next meeting.</p> |
| <p>60 Materion Cynllunio
Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A160785. Maesyfron, Llanrhystud. Estyniad arfaethedig i'r cwrtil presennol a chadw'r stordai presennol a phaneli solar.</p> <p>PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad.</p> | <p>60 Planning Matters
Consideration was given to planning application A160785 Maesyfron, Llanrhystud. Proposed extension of existing curtilage and retention of existing store buildings and solar panels.</p> <p>DECISION: No objection.</p> |
| <p>61 Unrhyw Fater Arall</p> | <p>61 Any Other Business</p> |
| <p>61.1 Ar gais y Cynghorydd Hayfield, cafwyd trafodaeth ar y sefyllfa presennol parthed dyfodol y gwasanaeth bws uniongyrchol i o Aberystwyth i Gaerdydd yn dilyn penderfyniad Lewis Coaches I offen masnachu. Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Edwards fod yna wasanaeth arall yn bodoli o hyd ond bod rhaid newid yng Nghaerfyrddin. Roedd trafodaethau'n parhau.</p> | <p>61.1 At the request of Councillor Hayfield, discussion ensued on the present situation in respect of the future of the direct coach service between Aberystwyth and Cardiff following the decision of Lewis Coaches to cease trading. Councillor Dafydd Edwards stated that another service was continuing to operate which necessitated changing at Carmarthen. Negotiations were continuing.</p> |
| <p>61.2 Ar gais y Cynghorydd Hayfield, cafwyd trafodaeth am y tagfeydd traffig cyson ym mhentref Llanon a'r damweiniau niferus ar y rhan yma o'r A487. Roedd yna gynnig y dylid ystyried creu maes parcio ar gyfer trigolion ar dir ym mherchnogaeth y Cyngor Sir y tu ôl i Hafan yr Efail. Roedd angen hefyd am ddiweddariad ar y cynlluniau ar gyfer cyflwyno cyfyngiad cyflymdra 20 mya a chroesfan i gerddwyr yn y pentref.
PENDERFYNWYD gwahodd cynrychiowyr Asiantaeth y Cefnffyrdd i gyfarfod nesa'r Cyngor er mwyn trafod y sefyllfa diweddaraf.</p> | <p>61.2 At the request of Councillor Hayfield, discussion ensued on the regular traffic congestion in the village of Llanon and the numerous accidents on this section of the A487. There was a suggestion to create a car park for residents on land in the ownership of the County Council at the rear of Hafan yr Efail. There was also a need for an up-date on the proposals for a 20 mph speed limit and a pedestrian crossing in the village.
It was RESOLVED to invite representatives of the Trunk Road Agency to the next meeting of the Council in order to discuss the latest situation.</p> |
| <p>61.3 Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes at gwrbyn rhydd a pheryglus gyferbyn â 30 Cylch Peris a gofynnwyd i'r Clerc gyfeirio hwn at y Cyngor Sir.</p> | <p>61.3 Councillor Hughes referred to a loose and dangerous kerb opposite 30 Cylch Cledan and the Clerk was asked to refer the matter to the County Council.</p> |

- | | |
|--|--|
| <p>61.4 Cyfeiriodd y Cynghorydd Morgan at y problem a grewyd gan y bin baw cŵn a oedd ar bostyn yng Nghylch Peris a gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r Cyngor Sir ei symud yn agosach at y banc poteli.</p> | <p>61.4 Councillor Morgan referred to the problem created by dog excrement bin which was on a post at Cylch Peris and the Clerk was requested to ask the County Council to relocate it closer to the bottle bank.</p> |
| <p>61.5 Cytunodd y Cynghorydd Hayfield gael gair gyda'r person oedd yn parcio'i fan ar yr A487 gyferbyn a siop y cigydd.</p> | <p>61.5 Councillor Hayfield agreed to have a word with the owner of the van who parked it opposite the butcher's shop on the A487.</p> |
| <p>61.6 Dywedodd y Cynghorydd Morgan nad oedd wedi gweld unrhyw gerbydau yn defnyddio Llainlan.</p> | <p>61.6 Councillor Morgan stated that he had been unable to observe any use by vehicles of Llainlan.</p> |
| <p>61.7 Soniodd y Cynghorydd Morgan fod unigolyn wedi mynegu diddordeb i brynu darn o dir ym mherchnogaeth y Cyngor ger y stordy newydd a chytunwyd cynnwys y cais ar agenda nesa'r Cyngor.</p> | <p>61.7 Councillor Morgan stated that an individual had shown an interest in buying a parcel of land in the Council's ownership near the new storage shed and it was agreed to include an item on the agenda of the next Council meeting.</p> |
| <p>61.8 Cytunwyd taw mater preifat oedd cyflwr y sied defaid y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod.</p> | <p>61.8 It was agreed that the condition of the sheep shed referred to in the meeting was a private matter.</p> |
| <p>61.9 Dywedodd y Cyngjorydd Tomlins ei fod wedi cyfeirio dau mater at Bwyllgor Rheoli Neuadd a Maes Chwarae'r Pentref sef gât rhydd a baw cŵn.</p> | <p>61.9 Councillor Tomlins stated that he had referred two matters to the Villae Hall and playing Grounds Committee, namely a loose gate and dog excrement.</p> |
| <p>62 Un Llais Cymru
PENDERFYNWYD awdurdodi'r Cynghorwyr Reed a Tomlins i fynd i Gyfarfod Blynyddol a Chynhadledd Un Llais Cymru ar 1af Hydref ar Faes y Sioe Brenhinol yn Llanelwedd.</p> | <p>62 One Voice Wales
It was RESOLVED to authorise Councillors Reed and Tomlins to attend the One Voice Wales Annual Meeting and Conference at the Royal Welsh Showground in Llanelwedd on 1st October.</p> |
| <p>63 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 4ydd o Hydref 2016</p> | <p>63 Conclusion and Date of Next Meeting – 4th October 2016</p> |
| <p>Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 y.h.</p> | <p>The meeting concluded at 9.00 p.m.</p> |